

Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenuwyr ifanc!

Dod i adnabod

Sioned Erin Hughes

Bywgraffiad

Mae Sioned Erin Hughes yn 24 mlwydd oed ac yn byw yng Ngheidio, Boduan, efo'i phartner, Dafydd, a'i chi bach, Eldra. Mae'n gweithio fel Swyddog Marchnata i wasg y Lolfa dros gyfnod mamolaeth, ac yn gweithio ar brosiectau llawrydd hefyd. Graddiodd mewn Cymdeithaseg a Chymraeg o Brifysgol Bangor, cyn dilyn cwrs Meistr mewn Ysgrifennu Creadigol o dan arweiniad Yr Athro Gerwyn Williams. Dechreuodd ysgrifennu'n greadigol o ddiwylwr yn 2017, pan aeth yn wael eto gyda chyflwr niwroggyhyrol. Defnyddiodd ysgrifennu fel dull ymdopi pan ddaeth ei bywyd, fel yr oedd hi'n ei adnabod, i stop.

Daeth yn fuddugol am y Goron yn Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed yn 2018, ac yn 2019, hi oedd curadur a golygydd y gyfrol *Byw yn fy Nghroen* (Y Lolfa), sy'n cynnwys straeon 12 o bobl ifanc sy'n byw, neu'n dioddef â chyflyrau iechyd corfforol a/neu feddyliol hirdymor. Enillodd y llyfr hwn Wobr Tir na n-Og iddi yn 2020, ac yn 2020 hefyd y cyhoeddodd ei llyfr cyntaf i blant, sef *Y Goeden Hud* (Gwasg Carreg Gwalch), yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Eleni, enillodd y Fedal Ryddiaith yng Ngheredigion am ei chyfrol gyntaf i oedolion, *Rhyngom*. Ar hyn o bryd, mae hi'n arbrofi gyda llen meicro a cherddi ar ei chyfrif Instagram, myfyrdod365.



Y Lolfa

www.ylolfa.com



Llyfrgelloedd Cymru
Cael mwy o'ch llyfrgell



Crynodeb:

Mae rhyw ysfa anifeilaidd tu mewn i bob un ohonom, a'r ysfa honno'n peri inni fod eisiau dianc rhag rhywbeth o hyd. Ond mae rhai clymau'n rhy dynn i geisio eu datod - perthynas mam â'i merch, dyn â'i famwlad, dynes â'i salwch - ac yn amlach na pheidio, mae'n amhosib torri'n rhydd. Dyma 8 stori sy'n dangos inni werth rhyddid, ac sy'n dangos mai braint, ac nid hawl, yw profi bywyd heb ffiniau.

'Dyma gasgliad crefftus, craff, a sawl stori sy'n dyfnhau efo bob darlleniad.' - Dylan Iorwerth

Beth wnaeth eich ysbrydoli i ysgrifennu *Rhyngom* a dywedwch ychydig am y stori...

Mi wnes i sgwennu *Rhyngom* gan mod i'n byw a bod yn astudio'r rhyngweithiad rhwng pobl, felly roedd hi'n braf cael rhywbeth i'w ddangos am yr holl synfyfyrion dros y blynyddoedd! Does yna ddim byd yn hawlio fy sylw i fel y cysylltiad rhwng pobl. Dwi'n byw er mwyn dod o hyd i'r cysylltiadau hynny, a'u ffurfio nhw fy hun. Mae *Rhyngom* yn edrych ar y clymau rhwng bodau dynol, a sut mae clymau yn gallu uno a chaethiwo, yn dibynnu ar y sefyllfa. Mae'r gyfrol yn edrych ar yr ysfa i ddianc, a'r teimlad o *fethu* â dianc. Dwi'n gobeithio'i bod yn mynd at graidd pwy ydyn ni, neu o leiaf yn codi cwr y llen ar hynny. Mi gaiff y llyfr nesaf fynd â ni fwy o fanylder, pryd bynnag ddaw hwnnw i'r golwg!

Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau er mwyn annog plant a phobl ifanc i ddarllen mwy er plaser?

Cymryd yr amser i ddarllen efo nhw bob cyfle a thrwy hyn, bydd y plentyn yn dysgu bod llyfrau yn gallu tanio'r dychymyg lawn cystal, os nad gwell na rhaglenni a gemau electronig.

Beth sy'n eich ysbrydoli?

Pobl, eu straeon nhw. Llyfrau, yn bendant, ond pobl o gig a gwaed hefyd. Mae'n rhyfedd sut mae cymaint o bobl yn grediniol nad oes ganddyn nhw ddim byd difyr i'w rannu, ond o siarad, mae 'na berlau drud o hanesion yn llifo allan. Mi faswn i wir yn caru tasa pawb yn credu bod yna werth eithriadol i'w straeon nhw, a 'mod i eisiau gwrando ar bob manylyn sydd ganddyn nhw i'w rannu.

A oes gennych unrhyw gynlluniau ar gyfer teitlau pellach?

Wrth gwrs! Byddai'n wych gallu cyhoeddi fy ngwaith myfyrdod365 ar ffurf llyfrau yn y pen draw - hynny yw, casgliad ar gyfer gwanwyn, haf, hydref a gaeaf fy mywyd yn 2023. Dwi'n rhagweld blwyddyn drawsnewidiol arall o fy mlaen, a byddai'n braf cael cofnod o hynny, fel rhyw fath o ddyddiadur cyhoeddus i bawb gael rhyddid i'w ddarllen.

... mwy C&A
ar wefan

llyfrgelloedd.cymru